# DATGANIAD PREIFATRWYDD GWOBR DYLAN THOMAS PRIFYSGOL ABERTAWE

Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut bydd tîm Gwobr Dylan Thomas ym Mhrifysgol Abertawe'n ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol ac yn ei defnyddio yn ystod ein perthynas ac ar ei hôl.

Rydym yn ymrwymedig i ddiogelu'ch gwybodaeth ac i fod yn agored am yr wybodaeth rydym yn ei chadw. Fodd bynnag, os hoffech ddarllen mwy am ymrwymiad y Brifysgol i ddiogelu'ch gwybodaeth bersonol ac i fod yn agored yn gyffredinol, ewch i dudalennau gwe Diogelu Data'r Brifysgol.

**Defnyddio eich Gwybodaeth Bersonol**

Prifysgol Abertawe yw'r rheolydd data ac mae'n ymrwymedig i ddiogelu hawliau cleientiaid a phartneriaid yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Mae gan Brifysgol Abertawe Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu â'r unigolyn hwn yn dataprotection@abertawe.ac.uk

**Pa wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch chi?**

Byddwn yn casglu'r wybodaeth ganlynol gan awduron a chyhoeddwyr sy'n cyflwyno cais i 'Wobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe':

Awduron

- Enw'r awdur
- Cyfeiriad llawn yr awdur gan gynnwys y côd post
- Cyfeiriad e-bost yr awdur
- Dyddiad geni'r awdur
- Enw asiant yr awdur
- Oedran yr awdur ar 31 Rhagfyr 2025
- Llofnod yr Awdur
- Sut clywodd yr awdur am y Wobr

Cyhoeddwyr

- Enw a swydd cyswllt y cyhoeddwr
- Cyfeiriad cyswllt y cyhoeddwr
- Rhif ffôn a chyfeiriad e-bost cyswllt y cyhoeddwr
- Llofnod cyswllt y cyhoeddwr

Sylwer na fydd manylion personol yn cael eu harddangos mewn unrhyw gyfrwng cyhoeddus. Yr unig bobl a fydd yn gweld yr wybodaeth bersonol a gyflwynir yn y ffurflen gais fydd tîm gweinyddol Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe.

**Sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?**

Defnyddir enw'r awdur mewn cysylltiad â'r gwaith llenyddol a gyflwynir, ynghyd ag enw a manylion cyswllt y cyhoeddwr, at ddiben unrhyw ohebiaeth bellach mewn perthynas â gweinyddu Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe.

Mae Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe yn agored i awduron 39 oed ac iau yn unig, felly caiff dyddiad geni'r awdur ei gasglu i ganfod a chadarnhau bod y cais yn ddilys ac y dylai symud i'r cam nesaf; neu, os yw'r awdur yn 40 oed neu'n hŷn ar 31 Rhagfyr 2025, hysbysir cyswllt y cyhoeddwr a chaiff y cais ei dynnu'n ôl.

Pan gaiff enwau'r awduron ar y rhestr hir (uchafswm o 12 awdur/teitl), y rhai ar y rhestr fer (uchafswm o chwe awdur/teitl) a'r enillydd eu cyhoeddi, bydd yr enwau, teitlau'r llyfrau a'r cyhoeddwyr yn cael eu rhannu ar ein gwefan, yn y cyfryngau cymdeithasol ac mewn datganiadau i'r wasg i hyrwyddo ymgyrchoedd y mae Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe yn teimlo eu bod o fudd. Caiff enwau, teitlau llyfrau a chyhoeddwyr yr awduron dan sylw eu rhannu â thîm Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu Prifysgol Abertawe a'r cwmni cysylltiadau cyhoeddus allanol a benodir gan Wobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe i gynnal ei hymgyrch cysylltiadau cyhoeddus.

Defnyddir cyfeiriadau e-bost a rhifau cyswllt cyhoeddwyr i gadarnhau bod ceisiadau wedi'u derbyn ac i'w hysbysu os caiff eu hawduron eu cynnwys ar y rhestr hir/rhestr fer neu os ydynt wedi ennill y gystadleuaeth, ac ar gyfer gohebiaeth arall mewn perthynas â'r Wobr.

Ar adegau, gellir rhannu oedran awdur ar ein gwefan, yn y cyfryngau cymdeithasol ac mewn datganiadau i'r wasg, ond ni fyddwn yn gwneud hyn oni bai fod gennym gydsyniad yr unigolyn i'w wneud.

**Beth yw ein sail gyfreithiol dros brosesu?**

Mae angen prosesu eich data personol at ddibenion buddiannau dilys y Brifysgol er mwyn gweinyddu Cystadleuaeth 'Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe'.

Pan fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth ar gyfer ein buddiannau dilys, rydym yn sicrhau ein bod yn ystyried unrhyw effaith bosib y gallai hynny ei chael arnoch chi. Nid yw ein buddiannau dilys ni yn drech na'ch rhai chi'n awtomatig, ac ni fyddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth os credwn y dylai eich buddiannau drechu ein rhai ni, oni bai fod gennym sail arall i wneud hynny (megis eich cydsyniad neu rwymedigaeth gyfreithiol).

Lle gofynnir i ni rannu manylion am oedran awdur, ni fyddwn yn gwneud hynny oni bai fod gennym gydsyniad yr unigolyn.

**Pwy sy'n derbyn eich gwybodaeth?**

Caiff yr wybodaeth rydych yn ei darparu i ni ei chadw gan dîm gweinyddol Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe.

Caiff eich gwybodaeth bersonol ei storio ar ein systemau electronig a'n cronfeydd data diogel a'r unig bobl a gaiff fynediad at y rhain yw cydweithwyr yn nhîm Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe sydd â'r caniatâd priodol. Caiff copïau caled o'r ffurflenni cais a gyflwynir eu storio mewn cabinetau dan glo nes y cyhoeddir enillydd Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe. Mae'r Brifysgol yn diogelu gwybodaeth bersonol ac ni fydd yn ei datgelu i sefydliadau trydydd parti heb gydsyniad pendant.

Bydd gwybodaeth ar gael i staff y mae angen iddynt gael mynediad iddi, mewn amgylchiadau cyfyngedig, ac am y rhesymau a nodir uchod. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Tîm Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe
- Tîm Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu Prifysgol Abertawe
- Y cwmni cysylltiadau cyhoeddus allanol a benodir gan Wobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe i gynnal ei hymgyrch cysylltiadau cyhoeddus

**Sut caiff eich gwybodaeth bersonol ei storio?**

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn gosod dyletswydd arnom i gadw eich gwybodaeth yn ddiogel. Golyga hyn y caiff eich cyfrinachedd ei barchu, ac y cymerir yr holl gamau priodol i atal mynediad a datgeliad anawdurdodedig.

Ni chaiff neb fynediad i'ch gwybodaeth, ac eithrio'r aelodau staff hynny y mae angen iddynt gyrchu rhannau perthnasol o'ch gwybodaeth, neu'ch holl wybodaeth. Bydd gwybodaeth electronig amdanoch yn cael ei diogelu trwy gyfrineiriau a chyfyngiadau diogelwch eraill a'i chadw ar rwydweithiau diogel y Brifysgol. Cedwir ffeiliau papur mewn ardaloedd diogel lle rheolir mynediad.

**Am ba gyfnod y caiff eich gwybodaeth ei chadw?**

Caiff eich data personol ei gadw am flwyddyn ar ôl dyddiad cau'r gystadleuaeth.

**Eich cyfrifoldebau**

Dylech gyfeirio at ffurflen gais a rheolau a rheoliadau Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe 2026: https://www.swansea.ac.uk/cy/gwobr-dylan-thomas/sut-i-ymgeisio

Rhowch wybod i dîm Gwobr Dylan Thomas os nad ydych yn rhoi caniatâd i'ch manylion gael eu cyhoeddi drwy e-bostio dtprize@abertawe.ac.uk

Os ydych chi wedi rhoi cydsyniad i Wobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe brosesu unrhyw ran o'ch data, mae gennych hawl hefyd i dynnu'r cydsyniad hwnnw yn ôl a gofyn i'ch data gael ei ddileu.

**Pa hawliau sydd gennych?**

Mae gennych hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu i brosesu'ch gwybodaeth bersonol, i unioni, dileu a throsglwyddo'ch gwybodaeth bersonol ac i gyfyngu ar fynediad iddi. Sylwer, fodd bynnag, mae hyn yn debygol o effeithio ar ein gallu i ddarparu cymorth i chi yn y ffordd fwyaf effeithiol, os o gwbl.

Ewch i dudalennau gwe Diogelu Data'r Brifysgol i gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau.

Dylid cyflwyno ceisiadau neu wrthwynebiadau'n ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol:-

Bev Buckley

Swyddog Cydymffurfiaeth y Brifysgol (Rhyddid Gwybodaeth/Diogelu Data),

Swyddfa'r Is-ganghellor,

Prifysgol Abertawe, Parc Singleton,

Abertawe

SA2 8PP

dataprotection@abertawe.ac.uk

Os ydych yn anfodlon ar y ffordd mae'ch gwybodaeth bersonol wedi cael ei phrosesu, i ddechrau, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych yn anfodlon wedi hynny, mae gennych hawl i gysylltu'n uniongyrchol â'r Comisiynydd Gwybodaeth i gael penderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: -

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,

Wycliffe House,

Water Lane,

Wilmslow,

Swydd Gaer

SK9 5AF

www.ico.org.uk

**Newidiadau yn ein Polisi Preifatrwydd**

Bydd unrhyw newidiadau yn ein polisi preifatrwydd yn cael eu cyhoeddi ar y dudalen hon a, lle bo hynny'n briodol, cewch eich hysbysu drwy e-bost.